Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth 9fed o Fai am 7:30 y.h

Yn Bresennol

Cynghorwyr – Olwen Roberts (OR), John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ) a'r Cyng. Aled Jones *hyd at 8:15pm* (AJ).

Penodwyd Olwen Roberts yn Gadeirydd Gweithredol Tros Dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

1. **Gor-yrru yn Llithfaen –** Nododd SCCH Geraint Williams iddo ymgymryd ac arolygon cyflymdra ar yr 20fed o Ragfyr, 25ain o Ionawr, 8fed a'r 17eg o Fawrth.
O ganlyniad i'r arolygon hynny comisiynodd 'Go Safe' Gwmni i gwblhau arolwg a barodd ddydd a nos am wythnos. Pan y bydd 'Go Safe' yn derbyn y data a ddeilliodd o hyn byddant yn edrych ar y canlyniadau ac yn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf.
Y Clerc i hysbysu Sara Williams.

2. **Ymddiheuriadau –** Lisbeth James, Sianelen Pleming a Gwilym Williams.

3. **Hysbysebiadau y Cadeirydd –** Croesawyd pawb gan Olwen Roberts a oedd yn Cadeirio. Llongyfarchodd y Cyng. Aled Jones ar gael ei ail ethol yn Gynghorydd Sir.
Gofynnwyd i'r Clerc yrru llythyr o ddiolch i Gwyn D Roberts a Dewi Ellis am eu gwasaneth gwerthfawr fel Aelodau ar y Cyngor Cymuned.

4. **Datgan Diddordeb –** Dim

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd William Jones fod cofnodion y 14eg o Fawrth, 2017 yn gywir. Eiliodd Griff Jones ac fe'u mabwysiadwyd. .

5.2 **Materion yn codi** –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl –** Nododd y Clerc fod Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy y Cyngor Sir wedi ymddiheuro am yr oedi. Cadarnhaodd ei fod am siarad gyda Dewi Cullen, sy'n Swyddog Draenio, ac yna diweddaru'r Cyngor Cymuned.

5.2.2 **Wal derfyn gerrig sych ar ochr y ffordd i Nant Gwrtheyrn** – Nododd y Clerc iddo yrru llythyr i'r perchennog. Bu yntau mewn cysylltiad yn ddiweddarach i holi am fanylion cyswllt AHNE Llŷn.

5.2.3 **Mynwent Pistyll –***GW a'r Clerc i fersur hyd y wal derfyn*

5.2.4 **Palmant gyferbyn a ffens Cae Chwarae Llithfaen -** *Y Clerc i ail-drefnu cyfarfod safle gyda Swyddog o'r Cyngor, y Cyng GJ, Cynrychiolydd o Bwyllgor y Cae Chwarae a'r Cynghorydd Sir yn bresennol.*

5.2.5 **Gweithgaredd yn y Nant -** Adroddodd y Clerc iddo yrru llythyr i Gwmni'r Nant yn unol â chais y Cyngor. Mae'r Nant wedi ei gyfieithu ac am ei yrru ymlaen i'r trefnwyr. *Y Clerc i ddiweddaru'r Aelodau pan ddaw ymateb.*

6. **Y Ganolfan** – Adroddodd y Clerc fod amodau drafft ar gyfer y Prydlesi wedi'u cylchredeg i'r Aelodau. Fe'u trafodwyd gan Bwyllgor y Ganolfan a ddaeth i'r casgliad nad oedd ganddynt ddadl â hwy. Penderfynwyd ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. *Y Clerc i sicrhau eu bod ar y Rhaglen*.

7. **Gwefan a pholisiau cysylltiol y Cyngor** –

7.1 Adroddwyd fod y person sy'n darparu'r wefan am wneud ei gorau i ddarparu tudalennau Cymraeg a Saesneg arwahan. Mae'n bosibl na fydd y cwbl yn ei le erbyn i'r ffurflen flynyddol fynd i mewn. *Y Clerc i adolygu'r cynnydd cyn cyfarfod Mehefin.*

7.2 Gan fod cynifer o'r Aelodau'n absennol penderfynwyd gohirio adolygiad y Polisi Iaith hyd at gyfarfod y 13 Mehefin. *Y Clerc i sicrhau fod hyn ar raglen Mehefin*

8. **Adnewyddu Yswiriant –** Adolygwyd a derbynwyd Asesiad Risg blynyddol y Cyngor. Penderfynwyd adnewyddu Yswiriant y Cyngor gyda Chwmni AON am flwyddyn o'r 1 Mehefin, 2017. *Y Clerc i drefnu.*
Penderfynwyd chwilio o gwmpas am brisiau/amodau gwell yn 2018 pan y bydd asesiad risg Mynwent Eglwys Pistyll ac unrhyw welliannau angenrheidiol wedi'u cwblhau. *Y Clerc i wneud nodyn i gofio yn 2018.*

9. **Ceisiadau Cynllunio** – Dim

10. **Materion lleol eraill a gyflwynwyd o flaen llaw** – Dim

11. **Gohebiaeth –**

11.1 Adroddwyd fod y Cyngor Sir yn rhoi cyfle i'r Cyngor Cymuned enwebu un o'i aelodau i fod yn 'Aelod Cymunedol'ar Bwyllgor Safonau Gwynedd. Ni chafwyd enwebiadau.

11.2 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'.

11.3 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

12. **Cyllid**

12.1 **Cyfrifon 2016/17 yn cynnwys amserlen hawl i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon** Adroddwyd fod angen arddangos hysbysiad archwiliad rhwng 22/5/2017 a 4/6/2017 gyda'r cofnodion i fod ar gael rhwng 05/6/2017 a 30/6/2017. *Y Clerc i sicrhau hyn.*

12.2 **Prisiau torri gwair Mynwent Pistyll -** Cyflwynwyd amcanbrisiau ar gyfer torri gwair ym mynwent Pistyll am eleni trwy law y Cyng. Gwilym Williams. Yn ysbryd eitem 10.3 ac 11.1g yn Rheolau Sefydlog y Cyngor ac i sicrhau gwerth am arian cynigiodd JO i'r Cyngor ddynodi'r gwaith i Osian Williams (£270.00 am y toriad cyntaf a £250.00 am yr ail-dorriad). Eiliwyd y cynnig gan WJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i godi a chyflwyno ffurflen archeb.*

Pan y bydd asesiad risg Mynwent Eglwys Pistyll ac unrhyw welliannau angenrheidiol wedi'u cwblhau penderfynwyd fod y Cyngor i ystyried mynd allan am amcanbrisiau tros 2/3 mlynedd yn hytrach na blwyddyn ar y tro. *Y Clerc i wneud nodyn i gofio yn niwedd 2017.*

12.3 **Adroddiadau/gofynion Archwilwyr – Datganiad Rheolaethol y Cyngor -** Bydd y Cyngor yn cwblhau'r Datganiad Rheolaethol y Cyngor yng nghyfarfod mis Mehefin.

12.4**Trafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:Gan nad oedd cyfriflen Banc mis Mai wedi cyrraedd cyn y cyfarfod gweler cofnodion y 9fed o Fai, 2017.

Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -

E Griffith (Cyflog Clerc)	£160.00	
√ (Costau/treuliau)	£25.00	£185.00
Aon UK Limited (Adnewyddu Yswiriant)		£526.19

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13 o Fehefin am 7:30 y.h.